# 155. Perfformio Golygfa Bl 6 ac iau Eisteddfod 2027

## Cystadlu

Cymeriadau: Phoebe, Elis, Catrin, Nuala

*Newidiwch yr enwau ar gyfer eich actorion chi*

Phoebe: Hei Mistar Urdd yn dy goch gwyn a gwyrdd,
Mae hwyl i'w gael ym mhobman yn dy gwmni.
Hei! Mae wedi dod te!

Catrin: Ydy e? Pwy?

Nuala: Hwrê?

Elis: Beth yn union Phoebe?

Phoebe: Dim ond amser mwyaf cyffrous y flwyddyn ysgol.

Nuala: Mae chwe mis arall tan wyliau'r haf!

Catrin: Trip? Trip? Trip! Ble 'ni'n mynd te?

Phoebe: Na..

Catrin: Caerdydd? Bowlio Deg? Sinema?

Phoebe: Ym na. Sori Catrin.

Nuala: Amser mwyaf cyffrous y flwyddyn ysgol?

Elis: Ie Phoebe. Beth? Yn union?

Phoebe: Wel, mae'n dymor Eisteddfod yr Urdd.

Y 3 arall: O.

Phoebe: Ac mae Mr Jones yn dweud ein bod i gyd yn mynd i gystadlu eleni.

Nuala. Grêt. Rwy'n gallu gwneud wrap guacomole gyda chaws feta yn sefyll ar fy mhen. Cogurdd i fi te. W hw!

Catrin: Yn sefyll ar dy ben? Roedd gymnasteg yr Urdd tymor diwethaf.

Elis: Rwy wedi casglu topiau poteli plastig ers blwyddyn – rwy'n siŵr gallwn i uwchgylchu rhywbeth. Ac mae gen i weledigaeth.

Nuala: Mmm lindys efallai?

Catrin: Rwy'n mynd i.... Rwy'n gallu... Rwy eisiau... ym...

Phoebe: Ie hyfryd iawn bawb. Ond mae Mr Jones eisiau ni i gyd wneud rhywbeth gyda'n gilydd.

Y 3 arall: Gyda'n gilydd?

Phoebe: Jyst fel 'ny!

Elis: Pam?

Phoebe: Er mwyn gwella ein sgiliau cyfathrebu a chyd-weithio.

Nuala: 'Sdim eisiau gwella dy rai di Phoebe.

Elis: Eilio

Catrin: Trydyddio

Phoebe: Nid da lle gellir gwell mae Mam-gu yn dweud.

Nuala: Rhywbeth gyda'n gilydd?

Elis: Mmm. Wy ddim yn siŵr am hyn.

Catrin: Na fi Elis.

Nuala: Oes cogurdd grŵp i gael? Fi byddai'r chef wrth gwrs a gallwch chi fod yn sous chefs. Alla i fod fel Colleen Ramsey ar S4C.

Phoebe: Dydw i ddim yn mynd i fod yn sous chef i neb! Na sori Nuala. Cystadleuaeth unigol yw cogurdd.

Elis: Rwyt ti'n gallu creu model mewn grŵp – wnaethon ni aderyn ym Mlwyddyn 2.

Nuala: Na eliffant.

Catrin: Octopws o'n i'n meddwl?

Elis: Roedd plu ym mhobman! Yn y tywod, yn y numicon, yn blocio hwfer Mr Blunsden.

Phoebe: Octopws gyda phlu? S'dim rhyfedd enillon ni ddim. Mae cystadleuaeth gallwn ni drio.

Catrin. O ie? Beth?

Phoebe: Perfformio Golygfa Bl 6 ac iau. Mae angen pedwar plentyn.

Nuala: Perfformio golygfa? Fel sioe? Fel sioe Nadolig?

Tinsel ar y goeden...

Elis: Mae'n haf. Wy ddim yn mynd i ganu.

Phoebe: Does neb eisiau ti i ganu Elis.

Catrin: Oes angen dawnsio?

Phoebe: Na.

Nuala: Fydda i'n gallu coginio ynddo fe? Ydw i wedi dweud wrthoch chi pa mor dda yw fy wrap guacomole...?

Phoebe: Na. Bydd dim avocado yn y sioe yma Nuala. Smashed neu beidio.

Elis: Beth sydd angen gwneud te?

Phoebe: Dim ond actio ychydig.

Catrin: Actio? Fel beth?

Phoebe: Wel mae'n dibynnu ar yr olygfa. Mae'n gallu bod yn ddoniol (y tri arall yn meimio). Efallai bod rhywbeth dramatig yn digwydd. Gallwch chi gael tipyn bach o dristwch ynddo fe. Mae'n dibynnu ar y sgript.

Nuala: Sgript! Diolch byth.

Catrin: Pryd mae Mr Jones yn rhoi'r sgript i ni?

Elis: Wy ddim eisiau lot o eiriau cofiwch.

Phoebe: Wel...ym... eleni maen nhw'n trio rhywbeth newydd. Ffres! Ym ... dim sgript.

Catrin: Cystadleuaeth fer te!

Elis: Grêt! Dim geiriau i'w dysgu – ni'n gallu meimio!

Phoebe: Does dim sgript gosod. Rhaid i'r plant ysgrifennu e.

Elis: Ysgrifennu e?

Phoebe: Bydd rhaid cael cymeriadau...

Nuala: Ysgrifennu e?

Phoebe: Meddwl am stori fach.

Catrin: Ysgrifennu e?

Phoebe: Ac wedyn actio'r peth.

Elis: Ysgrifennu e

Catrin: Gyda'n gilydd

Nuala: Heb gwympo mas.

Phoebe: Wel mae tipyn bach o densiwn yn dda mewn drama...
Beth am gymeriadau?

Nuala: W w w! Rwy wedi meddwl am rywbeth gwych.
Gallwn i actio rhan... Colleen Ramsey!

Catrin: Rwyt ti'n hoffi pêl droed Elis. Allet ti fod yn Aaron Ramsey.

Phoebe: Peidiwch a bod yn wirion!
Reit, ar y dechrau mae angen rhywbeth gwych i ddenu sylw'r gynulleidfa... Rwy'n gallu dod arno yn canu!

Y lleill: Ni'n gallu dod arno yn canu, Phoebe.

Catrin: Wyt ti'n cofio y "cyd-weithio"?

Phoebe: Sori. Wrth gwrs. Ni

Elis: Rwy'n gwybod! Gallwn ganu anthem yr Eisteddfod.

Phoebe: Ie! Un, dau, un, dau, tri.

Pawb: 'Steddfod yr Urdd pafiliwn coch, gwyn a gwyrdd
Mae hwyl i'w gael ymhobman wrth gystadlu!

Rhodri Harries
Carys Glyn